# Cynnwys


Cynnwys

Rhaglen 2

Cofnodion y cyfarfod diwethaf 5

6 - Y Gyfundrefn Parcio yng Ngwynedd 10

Atodiad A 16

7 - Blaen Raglen y Pwyllgor 24

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

**COMMUNITIES SCRUTINY COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10:00AM, DYDD MAWRTH, 10 RHAGFYR, 2013**

**10.00AM, TUESDAY, 10 DECEMBER, 2013**

Nodwch y lleoliad ogydd / Please note the venue

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES, CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Ioan Hughes (01286 679780)**

IoanHughes@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd 03-12-2013

**Aelodaeth/Membership (18)**

**Plaid Cymru (9)**
Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Craig ab Iago | Annwen Hughes | Gethin Glyn Williams |
| Dilwyn Morgan | Linda Morgan | Tudor Owen |
| Caerwyn Roberts | Mandy Williams-Davies | Eurig Wyn |

**Annibynnol/Independent (4)**
Y Cynghorwyr / Councillors

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eric M. Jones | Nigel Pickavance | Angela Russell | Mike Stevens |

**Llais Gwynedd (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Louise Hughes | Gruffydd Williams | Robert J. Wright |

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Gwynfor Edwards

**Democratiaid Rhyddfrydol / Liberal Democrats (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Stephen Churchman

**Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council – Y Cynghorwyr / Councillors Huw Edwards a / and Dewi Owen.

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 15 Hydref, 2013, fel rhai cywir, (copi yma – papur **melyn**)

## 5. GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Bydd y Prif Swyddog Tân yn bresennol i roi cyflwyniad ar 'Amcanion Gwella Arfaethedig Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'.

## 6. Y GYFUNDREFN PARCIO YNG NGWYNEDD

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet – Amgylchedd, a ddarparwyd mewn ymateb i gwestiynau a gyflwynwyd gan aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn, (copi yma, papur **llwyd**)

## 7. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR

(Copi ynghlwm)

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 15/10/13**

**YN BRESENNOL** - Y Cynghorydd Eric M. Jones, (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Angela Russell, (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Stephen Churchman, Annwen Hughes, Linda Morgan, Caerwyn Roberts, Gruffydd Williams, Mandy Williams-Davies, Gethin Glyn Williams, Eurig Wyn a Robert J. Wright

**SWYDDOGION:** Debbie Anne Williams Jones, (Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd) ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Hefyd YN BRESENNOL:** Cynrychiolwyr Cartrefi Cymunedol Gwynedd ac Arwel Wyn Owen, (Uwch Reolwr Tai).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Louise Hughes, Dilwyn Morgan a Mike Stevens.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

- Datganodd y Cynghorydd Angela Russell fuddiant personol yn eitem 5 ar y rhaglen, Cartrefi

Roedd yr aelod o'r farn ei bod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y mater.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf, 2013, fel rhai cywir.

**3. CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD**

a) Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Cartrefi Cymunedol Gwynedd gan y Prif Weithredwr, Ffrancon Williams.

Nodwyd bod yr adroddiad yn ymdrin â'r meysydd canlynol :

- Cyflawni addewidion y ddogfen gynnig;
- Gwaith buddsoddi safon Ansawdd Tai Cymru;
- Trefniadau ymgynghori gyda'r tenantiaid;
- Goblygiadau dan y Cytundeb (Cytundebau Enwebiadau ac Asiantaeth Tai, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Phrotocol Budd-dal Tai);
- Protocol Aelodau Etholedig;
- Gweithio mewn partneriaeth ar eitemau tai sy'n strategol bwysig,
- Materion gweithredol eraill.

b) Ymhelaethwyd ar y materion yma'n unigol a thynnwyd sylw at y prif faterion canlynol:

- Bod y Ddogfen Gynnig i denantiaid yn cynnwys 170 o addewidion. Ar 31 Mawrth, 2013 'roedd 116 (69%) o'r addewidion wedi eu cyflawni'n llwyddiannus gyda'r gweddill ar y llwybr cywir i'w cyflawni erbyn 2015.
- Ar 31 Mawrth, 2013 'roedd 65% o'r llafur a gyflogwyd ar y rhaglen fuddsoddi yn byw yng Ngwynedd a 89% yn byw yng ngogledd Cymru;

- Bod pob darparwr gwasanaeth Cartrefi Cymunedol Gwynedd bellach wedi derbyn y cysyniad o roi rhywbeth sylweddol yn ôl i'r gymuned gyda dros 40 o gynlluniau budd cymunedol wedi eu darparu ganddynt;
- 'Roedd sefydlogi darparwyr gwasanaeth Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn golygu bod llawer mwy o waith buddsoddi ar y safle gyda gwariant cyfalaf o £28.1miliwn o'i gymharu â £16.7miliwn yn y flwyddyn weithredu flaenorol.
- Er y cynnydd a nodir uchod, 'roedd yn parhau i fod £4.7 miliwn yn llai na'r gwariant a fwriadwyd ;
- 'Roedd y ffaith nad oedd rhai tenantiaid am weld y gwaith yn cychwyn yn un rheswm am yr hyn;
- Bod 40 tŷ yn cael eu dychwelyd i ddefnydd yn wythnosol;
- 'Roedd recriwtio i swyddi allweddol ar ochr asedau a buddsoddi yn broblemus, ond bellach 'roedd bron i bob swydd wedi ei llenwi;
- Bod mewnbwn tenantiaid yn cael ei ystyried i fod yn holl bwysig cyn i unrhyw fater gael ei gyflwyno gerbron Bwrdd y Gymdeithas;
- Bod llwyddiant sawl fforwm yn tanlinellu hyn;
- Bod y Panel Cwsmer yn creu dull pellach i'r tenantiaid allu cysylltu hefo'r Gymdeithas;
- Bod y Cynllun wardeniaid Ifanc yn enghraifft o gynllun sydd o fudd cymunedol. Gyda'r Cynllun mae plant 9 a 10 oed yn cynnal gweithgareddau difyr hefo'r wardeniaid ac yn cael hwyl wrth gael arweiniad ynglŷn â'r hyn ddylid ei wneud a pheidio ei wneud. Rhoddir tystysgrifau i'r rhai sy'n cwblhau'r cwrs sy'n para am oddeutu 6 wythnos. Cafwyd ymateb calonogol gan blant a rhieni;
- Bod gwersi wedi eu dysgu wrth gyflwyno Cofrestr Tai Cyffredin ond bellach cafwyd trefn ar y sefyllfa;
- Ers trosglwyddo 170 aelod o staff o'r Cyngor, mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd wedi cynyddu'r nifer gyda 292 yn cael eu cyflogi ar 31 Mawrth, 2013. Yn ogystal cyflogir mwy na 400 gan gontractwyr;;
- Bod Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn bwriadu cychwyn eu cynllun adeiladu tai newydd cyntaf yn 2013/14 gyda datblygiad ym Mhwllheli. Mae yna gynllun arall yn y Felinheli yn 2014/15

c) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau ac mewn ymateb i ymholiad gwnaed y prif bwyntiau canlynol:-
1. Cyfeiriwyd mewn peth manylder at yr ymdrechion i sicrhau safon gwaith sy'n bodloni tenantiaid o ran gwaith uwchraddio a gwaith cynnal a chadw. Cyfeiriwyd at ddyletswyddau'r rheolwyr prosiect, rheolwyr gwaith a'r swyddogion cyswllt a nodwyd bod y Gymdeithas hefyd yn dibynnu ar denantiaid i roi gwybod iddynt os oes problemau'n codi.

2. Nodwyd nad oes effaith sylweddol i'w weld hyd yma yn sgil newidiadau i'r drefn budd-daliadau. Fodd bynnag, sylweddolir fod rhai newidiadau'n effeithio rhai tenantiaid. Ychwanegwyd nad oes gwybodaeth ar gael parthed lefel Taliadau Tai Dewisol ar gyfer y flwyddyn nesaf a bod hyn yn achos pryder.
Nid oes patrwm i'w weld o ran ardaloedd mewn perthynas â'r newidiadau.

3. Esboniwyd bod 70% o'r rhai a gyflogir gan gontractwyr yn byw yng Ngwynedd a chedwir golwg ar y ffigyrau yma'n fisol.

4. Nodwyd bod contractwyr yn cyfrannu i gymunedau a bod y Gronfa Budd Cymunedol hefyd o werth. Yn wreiddiol 'roedd £1.25 miliwn yn y Gronfa am gyfnod o 5 mlynedd. Ar hyn o bryd mae dulliau posib o allu parhau gyda'r Gronfa'n cael eu hystyried.

5. Gwnaed penderfyniad ynglŷn â lle 'roedd galw am dai newydd mewn cydweithrediad â swyddogion Adran Dai Cyngor Gwynedd.

6. Nodwyd bod y ddau ddatblygiad tai newydd yn cynnwys 4 tŷ a 2 fyngalo gyda phob uned hefo 2 lofft. Ychwanegwyd bod hyn yn anelu at ddarparu unedau llai gan greu cyfle i deuluoedd allai fod yn tan-feddiannu rhai unedau i symud yno gan ryddhau'r unedau mwy o faint.

7. O ran y posibilrwydd o dai'n cael eu gosod i rai o'r tu allan i'r ardal, esboniwyd bod tai'n cael eu gosod i'r rhai sydd ar frig y rhestr yn ôl blaenoriaeth. Cyfeiriwyd at hyn yn benodol mewn perthynas â thai mwy o faint yn cael eu rhyddhau wrth i dai newydd, llai o faint, gael eu hadeiladu.
Esboniwyd bod rhaid i bob cymdeithas dai ddilyn y drefn yma wrth osod tai.

8. Nid oedd y swyddogion yn rhagweld y byddai'n rhesymol nodi llofft fel 'box room' neu gwpwrdd dillad er mwyn osgoi cost y 'dreth llofftydd.' Yn ogystal, byddai'n rhaid ystyried y gost o dynnu waliau i lawr er mwyn uno dwy ystafell wely.

9. Ni ellir gorfodi tenantiaid i dderbyn i welliannau gael eu gwneud yn eu tai ar wahân i achlysuron pan mae'n rhaid ystyried materion iechyd a diogelwch.

10. Derbyniwyd y gallasai fod yn fuddiol cyplysu'r Gronfa Budd Cymunedol hefo dulliau o sicrhau parhad i gyflogaeth y prentisiaid .

11. Rhoddir yr un cyfleoedd i holl weithwyr Cartrefi Cymunedol Gwynedd, ac nid oes unrhyw raniadau rhwng gwahanol rannau o'r Sir.

12. Mae gwahanol ardaloedd yn cael eu targedu ar gyfer bod yn rhan o'r Cynllun Wardeniaid Ifanc a'r bwriad yw cysylltu â gwahanol ardaloedd yn flynyddol.

13. Nid oes bwriad i leihau adnodd warden cymunedol. Fodd bynnag, mae trefn y wardeniaid yn gyffredinol yn cael ystyriaeth a bu treialu o ran rhai yn peidio byw o fewn safle fflatiau penodol.

14. Nodwyd bod y Gymdeithas bellach yn adnabod eu stoc yn well ac mai'r bwriad yw gwneud gwell defnydd ohono. Yn sgil hyn ymdrechir i beidio lluchio darpariaeth allai fod yn ddefnyddiol.

15. Cadarnhawyd na fu i unrhyw gwmni dderbyn contract heb dendro am y gwaith.

ch) Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Cartrefi Cymunedol Gwynedd am eu gwaith ac am fynychu'r cyfarfod.

**4. ETHOL ENWEBYDD – CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD**

a) Nodwyd bod cais wedi ei derbyn i'r Pwyllgor Craffu hwn ethol aelod i fynychu cyfarfodydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd a gynhelir bob chwe mis.

b) Mynegodd y Cynghorydd Stephen Churchman ei awydd i fynychu'r cyfarfodydd.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Stephen Churchman i fynychu cyfarfodydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd ar ran y Pwyllgor Craffu hwn.**

**5. YMCHWILIAD CRAFFU – CRYNODEB SGOPIO**

a) Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Sgôp Ymchwiliad Craffu - Polisi Cludiant Addysg Bellach Ôl 16.

b) Ymhelaethodd ar gefndir y bwriad i gynnal ymchwiliad craffu i'r mater a rhoddwyd sylw pellach i'r draft o sgôp.
Rhestrwyd prif gwestiynau fyddai'r ymchwiliad yn anelu i'w hateb a nodwyd fod dau gwestiwn wedi eu gadael allan o'r fersiwn Gymraeg sef:

- Beth fyddai canlyniad newid Polisi Cludiant Addysg Bellach -Ôl 16?
- Beth yw'r rhagolygon ar gyfer ar gyfer Polisi Cludiant Addysg - Ôl 16?

c) Esboniwyd y byddai'r ymchwiliad yn cychwyn ym mis Rhagfyr 2013 gydag adroddiad yn cael ei chyflwyno oddi wrth graffu at y Weithrediaeth ym mis Gorffennaf 2014.

ch) Tanlinellwyd pwysigrwydd yr ymchwiliad gan sawl aelod a phwysleisiwyd yr angen i gwblhau'r ymchwiliad o fewn amserlen gaeth fel y gellir argymell unrhyw newidiadau mewn da bryd erbyn y flwyddyn addysgol nesaf.

d) Cadarnhawyd mai Debbie A.W.Jones, (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) fydd Swyddog Arweiniol yr ymchwiliad craffu hwn.

**PENDERFYNWYD ethol yr aelodau canlynol yn aelodau o brif grŵp yr ymchwiliad craffu: -**
**Y Cynghorwyr -**
**Stephen Churchman, Craig ap Iago, Caerwyn Roberts, Angela Russell, Gethin Glyn Williams a Gruffydd Williams.**

**6. BLAEN RAGLEN WAITH CRAFFU 2013-14**

a) Cyflwynwyd y fersiwn ddiweddaraf o raglen waith y Pwyllgor Craffu hwn a nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod y materion a oedd yn cael eu rhestru yn benagored ac y byddai'n fuddiol nodi'r hyn oedd yr aelodau am ei graffu yn fanylach.
Cytunodd yr aelodau, a phenderfynwyd rhoi ystyriaeth fanylach i'r mater yn y Cyfarfod Paratoi nesaf.
Yn sgil hyn y gobaith yw nodi'n gryno beth fyddai'r aelodau'n anelu tuag ato wrth ymdrin â'r materion yn unigol.

b) Cadarnhawyd nad oedd 'Parthau Cadwraeth Morol' nag 'Antur Aelhaearn' bellach yn rhan o'r rhaglen waith.

c) Penderfynwyd newid geiriad yr ail fater ar y rhaglen waith fel ei bod yn darllen fel â ganlyn 'Rheoli carafanau sy'n parcio ar diroedd y Cyngor a mannau eraill heb ganiatâd.'

ch) Pwysleisiwyd nad oedd y materion o fewn y blaen raglen wedi eu rhestru o ran blaenoriaeth. Tynnwyd sylw penodol at 'ffioedd parcio' a chytunwyd y dylid cael adroddiad ar y mater yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Craffu hwn ar Ragfyr 10, 2013.

**7. CYFARFOD TROSEDD AC ANHREFN**

Yn unol â'r penderfyniad a wnaed yng Nghyfarfod Paratoi y Pwyllgor Craffu hwn ar 12 Medi, 2013 gwnaed ymholiadau ynglŷn â chael cyflwyniadau gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phennaeth Canolfan Gyfathrebiadau Heddlu Gogledd Cymru yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Craffu hwn, pryd y byddai'n gweithredu fel Pwyllgor Craffu Cymunedau (Trosedd ac Anhrefn).
Yn anffodus, nid oedd yn gyfleus i'r un ohonynt fod yn bresennol

**PENDERFYNWYD gwahodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phennaeth Canolfan Gyfathrebiadau Heddlu Gogledd Cymru i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor ar 4 Mawrth, 2014, a gweithredu fel Pwyllgor Craffu Cymunedau (Trosedd ac Anhrefn) bryd hynny.**

## 8. SYLWADAU'R CADEIRYDD

Nododd y Cadeirydd fod y gwelliannau i Siambr Hywel Dda bellach wedi eu cwblhau ac y byddai'n well i'r Pwyllgor Craffu hwn gyfarfod yno. Derbyniodd fod Ystafell Dwyryd Penrhyndeudraeth yn addas ar gyfer y Cyfarfodydd Paratoi.
Derbyniwyd hyn gan weddill yr aelodau.

Ymhellach, galwodd y Cadeirydd ar i'r aelodau ymddiheuro ymlaen llaw os nad oeddynt yn bwriadu mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Dywedodd y byddai hyn o werth neilltuol yn arbennig o gofio fod cyfieithwyr yn teithio i gyfarfodydd ac yna'n darganfod nad oedd angen y gwasanaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12:05pm

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **10 RHAGFYR, 2013** |
| **TEITL** | **Y Gyfundrefn Parcio yng Ngwynedd** |
| **AWDUR** | **Cynghorydd W. Gareth Roberts** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd W. Gareth Roberts** |
| | |
| **PWRPAS** | **I ymateb i gwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor.** |

1. Gofynnwyd i mi ymateb i gyfres o gwestiynau gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau mewn perthynas â materion parcio. Rwyf yn deall diddordeb aelodau'r Pwyllgor yn y mater hwn ac fe hoffwn ddiolch am y cyfle i ymateb iddynt yn y Pwyllgor hwn.

2. Yn gyntaf, hoffwn bwysleisio nad wyf ar hyn o bryd mewn sefyllfa i ymateb i'r holl gwestiynau yn llawn ar hyn o bryd. Y rheswm a hyn yw fy mod wedi gofyn i'r Adran Rheoleiddio ymgymryd ag adolygiad yn ymwneud a nifer o faterion yn ymwneud a pharcio. Mae'r gwaith yma ar y gweill ers rhai misoedd ac rwyf yn hyderus ein bod yn awr o fewn ychydig wythnosau i'w gwblhau. Unwaith y byddaf wedi derbyn yr holl wybodaeth a ofynnwyd amdano, bwriadaf roi ystyriaeth i'r canfyddiadau a llunio adroddiad ac argymhellion i sylw'r Cabinet. Fy mwriad yw llunio cynigion ar gyfer y drefn parcio sydd yn addas a phriodol ar gyfer trefi, pentrefi a chymunedau Gwynedd.

3. Nid oes unrhyw gyfundrefn parcio yn mynd i fod yn ddelfrydol i bawb. Mae elfennau a all fod yn apelio at rai yn rhywbeth fydd yn wrthun i eraill. Fy nod drwy sefydlu trefn newydd yng Ngwynedd, fydd ceisio cael cyfundrefn sy'n cyfarfod ag anghenion cymunedau ac ymwelwyr â Gwynedd yng nghyd-destun ehangach anghenion cludiant, traffig a diogelwch ffyrdd. Wrth gwrs, ni ellir ychwaith anghofio cyd-destun ariannol argyfyngus awdurdodau lleol wrth ystyried y mater yma.

4. Rhaid derbyn nad yw talu am barcio byth yn rhywbeth sydd yn debygol o fod yn boblogaidd. O gael y dewis, byddai llawer yn dewis peidio gorfod talu am barcio. Ond y mae parcio yn arf pwysig o ran rheoli traffig a diogelwch ffyrdd mewn canol trefi ac o'i ddefnyddio'n briodol, yn fodd pwysig iawn o gefnogi a hybu'r economi yn lleol, yn enwedig mewn canol trefi. Cael y balans cywir sydd yn bwysig.

5. Mae llawer ohonom yn ystyried bod talu am barcio pan yn mynd i ffwrdd am wyliau neu ar daith siopa i dref tu allan ein hardal ein hunain yn gwbl dderbyniol ond ar yr un pryd yn teimlo nad yw talu am barcio ar ein ardal ein hunain yn rhywbeth yr ydym yn gyfforddus ag o. Nid yw yn ymarferol nag yn realistig disgwyl cael y gorau o bob byd.

6. Mae'n debyg bod holl aelodau'r Pwyllgor Craffu yn gwbl ymwybodol y tro diwethaf y cododd ffioedd parcio yng Ngwynedd oedd yn Ebrill 2007. Codwyd y ffioedd bryd hynny am y tro cyntaf ers tua 10 mlynedd. Bu i swyddogion ar y pryd gael eu beirniadu yn hallt iawn gan aelodau am beidio â gwthio i godi'r ffioedd parcio yn raddol dros gyfnod o amser a bod hynny wedi arwain at un codiad sylweddol yn 2007. Rhoddwyd arweiniad clir gan y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ar y pryd, bod disgwyl i'r ffioedd gael eu hadolygu, ac o bosib eu codi yn flynyddol, er mwyn osgoi sefyllfa debyg eto.

7. Ers 2007, mae'r Adran Rheoleiddio wedi edrych ar ffioedd ac wedi cyflwyno gwybodaeth mewn perthynas â chodi'r ffioedd yn unol â gofyn y rheoliadau. Bob blwyddyn y gwnaed hynny, mae penderfyniad wedi ei wneud i beidio gwthio ymlaen gyda'r codiadau yma, a hynny yn bennaf oherwydd y sefyllfa economaidd sydd wedi bodoli dros y cyfnod yma. Yn ogystal, mae angen cadw mewn cof bod ffioedd Gwynedd a sefydlwyd yn 2007 wedi bod yn gymharol uwch nac awdurdodau eraill ar y pryd. Yn y cyd-destyn yma ystyriwyd y wybodaeth a phenderfynwyd cadw'r ffioedd ar y lefel ag yr oeddynt.

8. Dwy flynedd yn ôl, ymgymerwyd ag adolygiad o'r ffioedd gan swyddogion. Gwnaed penderfyniad eto yng nghyd-destun y sefyllfa economaidd i beidio codi'r ffioedd, ond yn hytrach i bontio'r diffyg incwm oedd yn codi oherwydd methiant i godi'r ffioedd am gyfnod o ddwy flynedd. Law yn llaw â hyn cytunwyd y dylid ymgymryd ag adolygiad o'r strwythur ffioedd. Mae'r adolygiad hwnnw yn rhan o'r adolygiad ehangach yr wyf i wedi ei gomisiynu dros y misoedd diwethaf.

**<u>Cysondeb Ffioedd</u>**

9. Cyn 2007 nid oedd unrhyw gysondeb yn lefel y ffioedd ar draws y Sir. Roedd ffioedd a phrisiau yn medru amrywio rhwng meysydd parcio o fewn tref benodol ac amrywiaeth eang iawn o un pen y Sir i'r llall. Penderfynwyd ar y pryd i geisio symleiddio'r drefn ac i gael strwythur oedd yn llawer symlach.

10. Roedd y penderfyniad ar y strwythur newydd yn seiliedig ar y math o ganolfannau y mae'r rhai o feysydd parcio talu ac arddangos y Cyngor yn eu gwasanaethu. Wedi ystyried yr holl wybodaeth oedd ar gael, penderfynwyd mai Bangor, fel canolfan siopa is-ranbarthol, oedd yr unig dref y gellid ei ystyried yn wahanol, a hynny dim ond yn ystod misoedd y gaeaf. Felly, mae ffioedd parcio drwy'r Sir gyfan yn gyson o'r 1 Mawrth hyd at 31 Hydref. Mae'r ffioedd yma yn aros ar yr un lefel drwy'r flwyddyn ym Mangor ond mae'r ffioedd yn mhobman arall yn y Sir ychydig yn is yn ystod misoedd Tachwedd, Rhagfyr, Ionawr a Chwefror. Gallaf gadarnhau bod ambell gwestiwn wedi eu codi gan aelodau ynglŷn â'r cyfiawnhad dros y gwahaniaeth yma ond bod rhesymeg cadarn y tu ôl i'r penderfyniad wnaed.

**<u>Pennu ffioedd</u>**

11. Mae ffioedd parcio yn cael eu pennu ar sail y wybodaeth orau sydd gan y Cyngor ar y pryd. Yn amlwg, mae lefel presennol y ffioedd yn ystyriaeth bwysig yn hyn ac mae ystyriaethau fel chwyddiant blynyddol, newidiadau mewn treth ar werth hefyd yn dylanwadu ar hyn.

12. Dylid hefyd nodi bod ffioedd hefyd yn cael eu pennu ar sail statws y maes parcio a'i leoliad o fewn tref neu bentref. Ar y sail yma dynodir meysydd parcio yn rhai arhosiad hir neu arhosiad byr neu yn faes parcio di-dâl. Mae gwahaniaeth rhwng prisiau sy'n cael eu codi mewn meysydd parcio arhosiad hir a meysydd parcio arhosiad byr os yw gyrrwr am aros am gyfnod o fwy na dwy awr. Fel arfer, mae'r meysydd parcio arhosiad byr yn rhai sydd yn agos at ganol trefi lle mae trosiant yn bwysig. Er mwyn hwyluso hyn mae ffioedd aros am gyfnodau hirach yn sylweddol uwch mewn meysydd parcio arhosiad byr

13. Mae penderfyniad ar ffioedd parcio hefyd yn cael ei wneud yng nghyd-destun y ffioedd parcio sydd yn cael eu codi mewn siroedd eraill a ffioedd parcio meysydd parcio preifat. Nid oes cysondeb mewn ffioedd parcio cyhoeddus na phreifat ar draws Gogledd Cymru nac efallai o sir i sir. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, ac i raddau yn dilyn y newidadau fu yn nhrefniadau Gwynedd, mae sawl Cyngor arall wedi mabwysiadu trefniadau a ffioedd tebycach i sefyllfa Gwynedd. Hyd at yn ddiweddar, mae Gwynedd wedi parhau i fod gyda rhai o'r drytaf. Dylid hefyd cadw mewn cof bod y cyd-destyn ariannol sydd yn wynebu'r awdurdodau lleol yn golygu bod prisiau yn cael eu codi mewn sawl sir yng Nghymru ar gyfer 2014.

14. Mae'r incwm sy'n deillio o feysydd parcio'r Cyngor yn sylweddol. Yn 2012-13 roedd yr incwm o feysydd parcio yn £1.248m. Fodd bynnag, roedd targed incwm ar gyfer yr un cyfnod yn £1.488m, gan adael y Gwasanaeth gyda bwlch ariannol sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn, a hynny yn bennaf oherwydd y tywydd difrifol a gafwyd yn ystod haf 2012. Bu raid i'r Gwasanaeth drosglwyddo arian o gyllidebau eraill megis gwaith cynnal a gwelliannau ynghyd â defnyddio arian o ôl-ddyled a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn i bontio'r bwlch ariannol hwn.

Cafodd hyn gryn effaith ar allu'r Adran i ddarparu rhai gwasanaethau a chwblhau cynlluniau gwellianau.

15. Mae'r targed sydd gan yr Adran ar gyfer incwm o ffioedd parcio meysydd talu ac arddangos wedi bod yn codi yn unol â chwyddiant bron bob blwyddyn. Felly, er mwyn cyfarfod â'r targed, fe ddylai'r ffioedd fod yn codi o ganran sy'n cyfateb i chwyddiant yn ogystal. Mae gwybodaeth lafar a dderbyniwyd gan awdurdodau eraill yn awgrymu fod y sefyllfa wedi bod yn debyg yn awdurdodau eraill

16. Wrth gwrs, y prif ddylanwad ar incwm parcio yw'r tywydd, ac oherwydd y tywydd difrifol gafwyd yn haf 2012 bu i feysydd parcio arfordirol gynhyrchu llawer llai o incwm nag a ddisgwyliwyd.

17. Hyd yn oed mewn blwyddyn dda o dywydd braf fel haf 2013, dim ond crafu tuag at y targed incwm y mae'r ffioedd wedi ei wneud, ac mae hyn yn creu risg sylweddol i'r Cyngor, risg fydd yn cael sylw penodol yn ystod fy adolygiad o'r Gwasanaeth.

18. Defnyddir yr incwm sydd yn codi o feysydd parcio ar gyfer sawl elfen arall o ddarparu gwasanaethau y Cyngor. Mae'n debyg mae'r ffordd hawsaf o edrych ar y sefyllfa yw bod yr incwm net yn mynd yn ganolog a bod yr arian sydd wedyn cael ei ddosbarthu i'r gwasanaethau amrywiol fel rhan o gyllideb graidd y Cyngor. Pe byddai'r incwm yn is, yn y sefyllfa ariannol argyfyngus bresennol, fe fyddai rhaid canfod mwy o arbedion a hynny yn debygol drwy weithredu toriadau, er mwyn osgoi gorwariant. Byddai hynny yn cael effaith ar allu'r Cyngor i gynnalrhai o'r gwasanaethau yna. Ar y llaw arall, fe fyddai llwyddo i gynyddu incwm, os yw hynny yn bosib, yn creu cyfle i leihau'r angen am doriadau. Fy nod yw ceisio cael y balans cywir o ran hyfywdra canol trefi a creu incwm a chynnal gwasanaethau yn hytrach na gorfod gwneud toriadau ac arbedion pellach.

## Adolygiad y ffioedd

19. Mae cyfrifoldeb ar yr Adran i adolygu ffioedd yn flynyddol gan wneud adolygiad trylwyr o ffioedd bob tair blynedd. Tra mae hynny wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf, mae penderfyniadau wedi eu gwneud i beidio â chodi'r ffioedd a hynny yng nghyd-destun sefyllfa'r economi. Mae'r adolygiad yr wyf wedi ei gomisiynu yn adolygiad trylwyr ac fe fydd yn dod ac argymhellion newydd ar gyfer pennu ffioedd parcio ar gyfer y dyfodol.

20. Yn fy marn i, nid oes unrhyw rwystrau rhag adolygu'r ffioedd presennol. Mae yna gyd-destun cymhleth ac eang i'w gosod. Fel yr wyf wedi nodi, rwyf yn mynd i'r afael â'r materion yma ar hyn o bryd a fyddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet ar strwythur ffioedd newydd o fewn y misoedd nesaf.

**Parcio Nadolig**

21. Fel y gwŷr Aelodau'r Pwyllgor, yr wyf i fel yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb ar faterion parcio a'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb ar faterion yr Economi wedi bod yn cydweithio pob blwyddyn i geisio darparu cynllun parcio i geisio cynorthwyo busnesau canol trefi trwyddarparu cynllun parcio am ddim yn y cyfnod sydd yn arwain at y Nadolig. Rydym wedi gwneud hynny eto eleni ac mae'n debyg i chwi weld y sylw gafodd y mater yn y wasg leol ac yn Newyddion Gwynedd.

22. Wrth lunio cynllun eleni, cymerwyd i ystyriaeth waith ymchwil a wnaed gyda busnesau lleol yn ein trefi a phentrefi a cheisiwyd addasu'r cynllun i adlewyrchu canfyddiadau y gwaith hwnnw ac i ystyried sylwadau a dderbyniwyd gan drigolion yn enwedig mewn perthynas â chamddefnydd o'r drefn gan gymudwyr oedd yn milwrio yn erbyn yr amcan sylfaenol o sefydlu'r cynllun.

23. Mae ystyriaeth i ymgorffori'r cynllunio Parcio Nadolig yn y trefniadau parhaol yn ffurfio rhan o'r adolygiad yr wyf wedi ei gomisiynu.

**Ymgynghori**

24. Mae gwybodaeth ynglŷn ag effaith trefniadau parcio ar fusnesau a hyfywdra canol trefi mewn ardaloedd eraill wedi cael ei gasglu ac fe fydd hyn yn cael ei ystyried pan fyddaf yn ffurfio fy nghanfyddiadau ac yn adrodd i'r Cabinet. 'Rwyf hefyd yn gweithio yn agos ar y mater gyda'r Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb ar yr Economi ac mae gwybodaeth leol sydd gan yr Adran Economi a Chymuned hefyd yn bwysig iawn i'r adolygiad.

**Yr Adolygiad Parcio**

25. Mae llawer o drafodaeth wedi bod o ran sefydlu cyfeiriad a phwrpas i Adolygiad Parcio Gwynedd. Mae'r cwestiwn o beth yn union yw rôl parcio, a pha effaith mae'r dulliau a ddefnyddir i reoli parcio yn y Sir yn ei gael ar yr economi lleol wedi bod yn ganolog i'r trafodaethau.

26. Mae yn werth nodi mae'r ysgogiad cyntaf i ddechrau'r gwaith ar yr Adolygiad oedd un ariannol, gan fod lefel o ffioedd a phrisiau parcio wedi bod mewn bodolaeth ers 2007, ac felly heb gynyddu i gyd-fynd a chwyddiant na newidiadau yng nghyfraddau TAW. Canlyniad hyn oedd ei bod bron yn amhosib cyrraedd y targedau incwm o feysydd parcio talu ac arddangos a nodwyd yn y gyllideb flynyddol. Yn gyffredinol, mae'r targedau incwm wedi bod yn cynyddu gyda chwyddiant blynyddol.

27. Wedi'r sylw dechreuol gafwyd yn dilyn y codiadau yn 2007, yn gyffredinol, nifer fechan iawn o sylwadau neu gwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â lefel y ffioedd presennol. Derbyniwyd rhai sylwadau mewn perthynas â 'tegwch' lefelau

ffioedd parcio wrth gymharu canolfannau er enghraifft Dolgellau a Chaernarfon, a sylwadau yn nodi nad oedd Dinas Bangor yn mwynhau gostyngiad mewn ffioedd yn ystod y gaeaf (Tachwedd - Chwefror). Mae'r Gwasanaeth yn derbyn mwy o sylwadau yn ymwneud â dulliau rheoli safleoedd talu ac arddangos e.e. awgrymu trefniadau talu wrth adael ac am anallu peiriannau i gynnig newid nag am lefel y ffioedd.

28. Ar sail y wybodaeth sydd gennym, tra byddai bron pawb yn dymuno peidio gorfod talu am barcio, nid oes anfodlonrwydd sylweddol mewn perthynas â lefel y ffioedd presennol.

29. Bydd y fframwaith gaiff ei gynnig yn rhoi sylw penodol i'r prif agweddau mae'r Cyngor yn dymuno eu gweld pe byddai penderfyniad yn cael ei gymeryd i newid trefniadau rheolaeth parcio. Wedi sefydlu, a blaenoriaethu'r prif amcanion, byddaf wedyn yn mynd ati i lunio opsiynau gweithredol i gyflawni'r rhain. Er enghraifft, pe byddai blaenoriaeth yn cael ei roi i gefnogi cludiant cynaliadwy, efallai byddai cynnydd mewn incwm ffioedd parcio yn medru mynd tuag at gynnig sybsidi i fysiau mewn ardaloedd gwledig. Pe byddai'r flaenoriaeth yn cael ei roi ar faterion marchnata canolfannau er budd yr economi lleol, gallai'r cynnydd neu gyfran ohono gael ei roi fel cyfraniad ariannol blynyddol i'r canolfannau e.e. trwy'r cyngor dinas/tref/cymuned i'w wario ar gynlluniau neu welliannau sydd o flaenoriaeth iddynt hwy yn lleol, megis gwella adeiladau neu fannau cyhoeddus canol tref, goleuadau Nadolig, swyddog canol tref ayyb. Mewn trefn o'r fath byddai maint y cyfraniad yn naturiol yn ddibynnol ar incwm a dderbyniwyd y flwyddyn flaenorol.

30. Rwyf wedi cynnwys copi o bapur trafod ar faterion parcio fel Atodiad A i'r adroddiad hwn. Cyflwynwyd hwn i mi er annog trafodaeth yn ystod yr adolygiad. Mae ynndo nifer o awgrymiadau yn ymwneud â gosod cyfeiriad a byddwn yn falch o dderbyn unrhyw sylwadau ar ei gynnwys. Hoffwn dynnu sylw yr Aelodau at baragraffau 31 i 39 yn yr Atodiad sydd yn cyflwyno engrhaifft o sut y gellid dynodi statws meysydd parcio ar sail ardal orfodol a pharth defnydd tir. Byddai sylwadau aeloda y Pwyllgor yn benodol ar yr engrheifft yma yn hynod ddefnyddiol.

31. Wrth gwrs, mae nifer helaeth o opsiynau y byddaf yn eu hystyried, ac felly fe fyddaf dros yr wythnosau nesaf yn rhoi sylw manwl iddynt oll. 'Rwyf yn croesawu awydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau i gyfrannu at y drafodaeth ac i gynnig awgrymiadau i mi fel y gallaf gyflwyno opsiynau ymarferol i gwrdd â'r amcanion hyn.

ATODIAD A

CYNGOR GWYNEDD

**PAPUR TRAFOD PARCIO**

## Cyflwyniad

## Trosolwg

1. Ceir cydnabyddiaeth eang bod parcio yn fater sy'n cael cryn sylw pan ystyrir dyfodol canolfannau masnachol, trefi marchnad a chymunedau gwledig. Ac eithrio cael digon o lefydd parcio, mae'n ymddangos bod nifer o faterion sy'n ymwneud â pharcio yn cael llawer mwy o sylw nac y maent yn eu haeddu o ystyried eu gwir effaith ar hyfywdra canol trefi.

2. Mae ymdrin â phroblemau parcio presennol ac yn y dyfodol, megis diffyg llefydd parcio ar adegau brig neu geir wedi parcio mewn lleoliadau sensitif, yn ffactor bwysig wrth geisio cyflawni amcanion trafnidiaeth ehangach ac amcanion adfywio canol trefi lleol. Fodd bynnag, rydym yn gwybod o brofiad bod goresgyn y problemau hyn, yn y dechrau o leiaf, yn ymddangos yn anodd.

3. Derbynnir yn gyffredinol y gall cael rheolaeth briodol o barcio ehangu mannau cyhoeddus a gwneud trefi'n fwy deniadol i drigolion ac ymwelwyr, gan wella eu hyfywdra economaidd. Mae hyn yn hynod amlwg mewn ardaloedd a chanolfannau sy'n elwa o dwristiaeth, ond mae hefyd yn berthnasol ar sail ehangach yn sgil twf sylweddol mewn siopa ar-lein a thu allan i'r dref, gyda chanol trefi yn gweld lefelau uwch o siopa cymharol a chystadleuaeth. Mae'r rhan fwyaf o ganol trefi sy'n ystyried y materion hyn yn rhoi'r pwyslais ar ddarparu cynnig ehangach ac apêl unigryw yn y dref i geisio gwrthbwyso hyn.

**Nid parcio yw'r prif ffactor sy'n effeithio ar berfformiad a hyfywdra economaidd.**

4. Mae cael digon o lefydd parcio sy'n bodloni anghenion cymunedol ac anghenion cwsmeriaid yn bwysig, ond dim ond un o'r elfennau o bwys ydyw wrth ystyried hyfywdra economaidd gwasanaeth/canol tref. Mae'r hyn sydd gan ardal, canolfan neu dref i'w gynnig, fel cynnyrch/atyniad cyffredinol yn llawer mwy arwyddocaol pan ddaw i ymddygiad gwario cwsmeriaid.

5. Mae risg barhaus wedi bodoli bod ymddiriedaeth cymuned yn ei system rheoli parcio, ac yn enwedig gorfodaeth a dyrannu refeniw, yn mynd i ddirywio. Mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd ar draws Cymru a'r DU. Mae'r ffactorau sy'n cyfrannu at hyn yn gallu cynnwys cyfathrebu gwael gan yr awdurdod ('tryloywder ac ymgysylltiad rhagweithiol); a diddordebau personol yn cael eu lleisio'n gyhoeddus, e.e. aelodau o'r wasg neu wleidyddwyr yn manteisio ar y cyfle i leisio'u barn ar y pwnc 'emosiynol' hwn. Mae'r fath ymatebion niweidiol, ynghyd â phwysau economaidd ehangach, cyllidebau gostyngedig y Cyngor a'r heriau sy'n wynebu'r Stryd Fawr, oll yn cyfrannu at y broblem.

**Mae yma gyfle i gymunedau gydweithio i ddefnyddio'r galw am barcio mewn dull deallus a strwythuredig er budd pawb.**

6. Bydd gwir effeithiau rheolaeth parcio yn dibynnu ar statws yr ardal, y ganolfan neu'r dref unigol a'i chyflenwad parcio.

7. Mae Cyngor Gwynedd wedi, ac yn parhau i weithredu dull strwythuredig ac ystyrlon wrth asesu'r cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n gysylltiedig â gofynion parcio yn y sir.

8. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad o ymchwil parcio perthnasol, yn cynnwys meddylfryd a thystiolaeth bresennol sy'n ymwneud â rheoli parcio. Ystyrir bod hyn yn gam pwysig iawn i sicrhau eglurdeb wrth adnabod yr opsiynau sydd ar gael i benderfynwyr, grwpiau â diddordeb a chymunedau yng Ngwynedd.

9. Mae'r neges gyffredinol a ddaw o'r gwaith a wnaed yn un bositif. Os y'i gwneir yn iawn, byddai rheoli parcio yn effeithiol yn fuddiol i ardal neu ganol tref. Mae'n bosib bod sawl mantais sylweddol o gael system barcio wedi'i rheoli'n dda, yn cynnwys lleihau dominyddiaeth ceir a chynyddu mynediad, yn hytrach na'i gyfyngu. Yn ogystal, mae tystiolaeth yn awgrymu bod parhau i ddatblygu system barcio wedi'i rheoli'n effeithlon ac effeithiol yn fuddiol i ansawdd byw cyffredinol a'r economi, yn hytrach na'n niweidiol.

10. Mae'r ddogfen a ganlyn yn ceisio ychwanegu at yr adolygiad ymchwil parcio a darparu fframwaith o gynigion i ddatblygu strategaeth parcio Gwynedd a llunio polisïau parcio.

**Adolygiad Ymchwil Parcio Gwynedd**

11. Mae'r Adolygiad Ymchwil Parcio Gwynedd diweddar wedi asesu tystiolaeth ynghylch dulliau strategol a gweithredol rheoli parcio yn y DU a Chymru. Yn ogystal, mae'n cyfeirio at gynlluniau strategol cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol, ynghyd ag amcanion cysylltiedig, sy'n ymwneud â theithio, yr amgylchedd a'r economi.

12. Dyma grynodeb o gasgliadau'r adolygiad ymchwil parcio:

    - Dylai polisi parcio effeithiol fodoli fel rhan o fframwaith ehangach a strwythuredig y strategaeth drafnidiaeth genedlaethol a lleol bresennol.

    - Dylid integreiddio a chytgordio cynllunio trafnidiaeth ar lefel genedlaethol neu leol gyda chynllunio amgylcheddol a busnes cysylltiedig.

    - O ganlyniad, bydd 'tensiynau' wastad yn bodoli rhwng strategaeth trafnidiaeth a pholisi parcio ac ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

- Wrth lunio, gweithredu a gwerthuso polisi parcio, dylid glynu at ddull strategol cenedlaethol neu leol, a cheisio deall a chyflawni cymaint â phosib o anghenion ac amcanion cymunedol ar yr un pryd.

- Dylid llunio polisi parcio gan ddefnyddio'r dull strategaeth trafnidiaeth ehangach o 'reoli'r galw' yn hytrach nag ymateb i'r galw presennol neu'r galw a ragwelir ar gyfer y dyfodol.

- Mae'n gyfrifoldeb ar y rhai sy'n llunio'r polisi i ddefnyddio'r teclynnau effeithiol sydd yn eu meddiant i sicrhau y gwneir y mwyaf o fuddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae digon o dystiolaeth i wrthod yr awgrym bod effaith rheoli parcio a chodi tâl am barcio yn gwneud cyfraniad negyddol i hyfywdra canol tref.

- Felly, dylid defnyddio ffioedd parcio fel un o'r teclynnau pwysig sydd ar gael i geisio cael dull cytbwys wedi'i deilwra i weithredu polisi parcio sy'n rheoli'r galw.

- Mae'n fuddiol iawn datblygu polisi parcio mewn ffordd greadigol a hyblyg, yn cynnwys elfen o deilwra gweithrediad y polisi i fodloni anghenion gwahanol.

- Mae sawl mantais i gyfleu'n glir y strategaeth barhaus; a datblygiad, gweithrediad a gwerthusiad y polisi, i'r holl fudd-ddeiliaid. Galla cael lefelau priodol o ymgynghori, tryloywder a chyfranogiad cymunedol yn y broses benderfynu arwain at ddatblygu, gweithredu a gwerthuso'r polisi yn fwy effeithiol.

**Trosolwg o Nodau ac Amcanion Strategaeth Parcio Gwynedd**

13. Mae strategaeth parcio Cyngor Gwynedd yn ceisio cael cydbwysedd rhwng cefnogi twf economaidd a bod yn declyn rheoli galw effeithiol i annog pobl i ddefnyddio dulliau trafnidiaeth cynaliadwy.

14. Mae consensws y gall strategaeth parcio Gwynedd i ddelio â chyflenwad a rheolaeth parcio fod yn un o'r teclynnau mwyaf defnyddiol i'r awdurdod lleol a'r gymuned i gyrraedd yr amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

15. Gallai'r nodau ac amcanion allweddol i Wynedd gynnwys, er enghraifft:

    I. Cynorthwyo'r economi leol (e.e. ei gwneud yn haws i siopwyr a thwristiaid ymweld â threfi marchnad Gwynedd) a hwyluso twf datblygiadau (e.e. drwy alluogi'r twf arfaethedig mewn tai, ailddatblygu a chyflogaeth yng Ngwynedd).

    II. Diwallu anghenion preswylwyr am lefydd parcio yn agos at eu tai (e.e. drwy gyflwyno Parthau Parcio i Breswylwyr os yn briodol ac os oes galw am hynny).

III. Darparu mynediad i wasanaethau a chyfleusterau allweddol i grwpiau anghenion arbennig a phobl â nam symudedd (e.e. drwy ddarparu llefydd parcio addas i ddeiliaid Bathodynnau Glas).

IV. Gwella mynediad a rhoi sicrwydd amser teithio i ddefnyddwyr ffyrdd (e.e. drwy ddylunio a rheoli cyfleusterau parcio ar y stryd er mwyn lleihau gwrthdaro ac oedi traffig).

V. Annog dulliau teithio cynaliadwy a helpu i leihau dibyniaeth ar geir preifat (e.e. drwy osod ffioedd parcio ceir ar lefelau addas).

VI. Gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol (e.e. drwy leihau maint y tir sydd ei angen ar gyfer parcio a gwella edrychiad y strydwedd drwy weithredu ar achosion o ddiffyg cydymffurfio).

VII. Gwneud Gwynedd yn fwy diogel (e.e. drwy weithredu'r polisi parcio yn effeithiol).

VIII. Codi refeniw i'r Cyngor ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau a mesurau trafnidiaeth (e.e. drwy ddefnyddio refeniw parcio sydd dros ben i dalu am wasanaethau bysiau drud mewn ardaloedd gwledig).

**Trosolwg o Gyfleoedd**

16. Ystyrir bod yr adolygiad o barcio yng Ngwynedd yn cynnig cyfres o gyfleoedd i ganol trefi a phentrefi, ac y gall gyfrannu tuag at lawer o amcanion strategol yr awdurdod. Gallai ddarparu strategaeth i'r dyfodol a all gynnig eglurdeb ar reolaeth parcio a rhoi sail ar gyfer gweithio effeithiol, gan gynnwys y broses o adolygu ffioedd ac ymateb i gyfleoedd.

- Creu fframwaith polisi rhagweithiol
- Darparu strwythur a chymhelliad ar gyfer proses integredig o ffurfio polisi a gwneud penderfyniadau
- Cynnal mentrau a thargedau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach
- Sicrhau cyfranogiad y gymuned ar draws Wynedd a helpu i newid y cysyniad o reolaeth parcio o 'gyfyngiadau a chosbau' i 'gyfleoedd a manteision i'w rhannu'.

**Gorfodaeth – "Cadw traffig yn symud a phobl yn ddiogel"**

20. Yn dilyn cyflwyno Gorfodaeth Parcio Sifil ledled Gwynedd yn 2007 yn llwyddiannus, mae'r fframwaith arfaethedig hwn ar gyfer ffurfio strategaeth

a pholisi yn cael ei ddatblygu gan wybod y bydd unrhyw gyfyngiadau a gyflwynir yn cael eu gorfodi'n effeithiol.

21. Mae'r broses hon hefyd yn cynnwys ymchwilio i geisiadau gan breswylwyr, cynghorau tref a sefydliadau eraill â diddordeb am reolaeth parcio, ynghyd â ffurfio cynigion i ymdrin â phroblemau'n ymwneud â diogelwch neu rwystrau, y gellir mynd i'r afael â hwy drwy broses gorchmynion rheolaeth traffig.

22. Mae cyfleu diben y mesur gorfodaeth yn bwysig, ac yn un maes lle y gellid gwneud mwy mae'n debyg.

23. Dylid rhoi'r cyd-destun cywir i'r cyhoedd o ran beth yw 'gorfodaeth' effeithiol, ac mai dim ond **un elfen hanfodol** o reolaeth parcio ydyw. Rhaid ailadrodd buddion Gorfodaeth Parcio Sifil a dull 'gweithredu ysgafn' y Cyngor a sicrhau y cânt eu cyfathrebu'n gywir er mwyn cynnal y lefelau uchel o hyder. Yn ogystal, mae angen cyfleu'n glir ac yn dryloyw beth yw'r gwahaniaeth rhwng tarddiad a dyraniad y refeniw a godir drwy'r taliadau parcio a'r refeniw a godir drwy orfodaeth.

**Trosolwg o'r cyd-destun polisi rhanbarthol ar gyfer rheolaeth parcio yng Ngwynedd:**

25. Yn y Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol ceir nifer o gyfeiriadau at yr angen i sicrhau bod y broses o ffurfio polisi rheolaeth parcio a'i weithrediad yn rhan o gyflawni amcanion trafnidiaeth ehangach.

26. Dim ond cyfeiriadau cyfyngedig penodol a geir i reolaeth parcio yn y cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol sy'n berthnasol i Wynedd. Er hyn, maent yn ymddangos i gydnabod yn llawn fod hyn yn elfen bwysig o fewn dull integredig o reoli'r galw er mwyn cyrraedd yr amcanion trafnidiaeth.

27. Cydnabyddir ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol y gall rheolaeth parcio gael effaith sylweddol ar fentrau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach. Mae hyn arbennig o berthnasol wrth gynnal a datblygu'r mynediad i ganol trefi a'r hyder ynddynt.

**Polisïau Parcio Gwynedd**

28. Rhaid i unrhyw Strategaeth Parcio Ceir yng Ngwynedd yn y dyfodol gydbwyso nifer o amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, a bodoli o fewn y dull ehangach o reoli'r galw am drafnidiaeth. Bydd yn rhaid i unrhyw bolisïau arfaethedig geisio taro'r cydbwysedd hwn a tra'n cydnabod amgylchiadau arbennig Gwynedd.

29. Mae'r stoc parcio cyhoeddus ar y stryd ac oddi ar y stryd yn ased cymunedol pwysig. Mae'r galw am ddefnyddio'r ased hwn yn cynrychioli bygythiad a chyfle i'r gymuned. Mae'n gyfrifoldeb ar y Cyngor i reoli effaith y galw hwn am barcio yn gywir drwy leihau'r bygythiadau a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd. O ran manteisio ar y buddion, mae'n hollbwysig i

edrych ar safbwynt y gwasanaeth i gwsmeriaid o ran cyfathrebu a darparu'r 'cynnig parcio'.

**Strategaeth Parcio Arfaethedig 1 – Egwyddor Cyffredinol**

30. Caiff y stoc parcio cyffredinol ei reoli'n effeithlon ac yn effeithiol drwy weithredu mesurau cyflenwad, rheolaeth, codi tâl a gorfodaeth i geisio cyrraedd yr amcanion lleol perthnasol.

**Cysondeb a Theilwra**

31. Er mwyn hwyluso rheolaeth parcio effeithlon ac effeithiol, rhaid mabwysiadu dull cytbwys. Dylai hyn adlewyrchu'r amrediad o wahaniaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd i'w canfod yng Ngwynedd, ond rhaid darparu fframwaith sy'n gyson ac y gellir ei weithredu. O ganlyniad, mae'n debyg y bydd yn rhaid i reolaeth parcio ceir ganolbwyntio ar gyfuniad o nifer o 'ardaloedd gofodol' a 'parthau defnydd-tir'.

32. Cynigir y dylid rhannu aneddiadau Gwynedd yn bedair ardal ofodol (gweler y Tabl isod) yn seiliedig ar hierarchaeth sy'n ystyried rôl a swyddogaeth yr aneddiadau, lefel y cyfleusterau a'r gwasanaethau, lefelau'r boblogaeth, pa ddewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy amgen sydd ar gael a materion gweithredol yn ymwneud â pharcio. Un model posib fyddai:

33. **Tabl 3.1 Ardaloedd Gofodol**

| BAND | ARDAL OFODOL |
|---|---|
| 1 | Dinas Bangor |
| 2 | Prif Drefi Marchnad |
| 3 | Trefi a Chanolfannau ag Effaith Dymhorol |
| 4 | Trefi a Phentrefi Llai |

34. Gallai'r 'Trefi Marchnad' (Band 2) gynnwys: Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli

35. Gallai'r 'Trefi a Chanolfannau ag Effaith Dymhorol' gynnwys: Abermaw, Dolgellau, Llanberis, Abersoch, Bala, Tywyn, Aberdyfi, Harlech.

36. O fewn yr aneddiadau hyn, gellid categoreiddio pob maes parcio'n unol â defnydd y gwasanaethau cynradd:

37. **Tabl 3.2 Parthau Defnydd-Tir**

| BAND | PARTH DEFNYDD-TIR |
|---|---|
| A | Parth Siopa a Masnachol Rhanbarthol |
| B | Ardal / Canolfan Gyflogaeth |
| C | Ardal Breswyl |
| D | Ardal ag Effaith Dymhorol / Dwristaidd |

**Buddion:**

38. Mae dull safonol ar draws trefi’n medru cynnig cysondeb, gwell dealltwriaeth ac yn rhoi hyder i’r defnyddwyr.

39. Hefyd gall gynnig mwy o hyblygrwydd a’r potensial i’w deilwra’n rhannol at anghenion penodol canolfannau a threfi, tra’n parhau’n ymarferol, yn hawdd i’w reoli ac yn gost effeithiol.

40. Mae’r ateb cytbwys hwn yn cynnig hyblygrwydd i adlewyrchu anghenion gwahanol neu fannau gwahanol ar adegau gwahanol o'r dydd, yr wythnos neu'r flwyddyn. Bydd cynnal adolygiadau rheolaidd yn fodd o ddatblygu a newid y gwaith teilwra dros amser.

**Rhaglen Waith Pwyllgor Craffu Cymunedau Medi 2013 – Awst 2014**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Cludiant ôl 16** | **Sgóp ar gyfer ymchwiliad craffu 'Cludiant ól -16' wedi ei gyflwyno** |
| 2. | **Rheoli carafanau sy'n parcio ar diroedd y Cyngor a mannau eraill heb ganiatad** | **Materion a ellid eu craffu wedi cael ystyriaeth a chamau'n cael eu cymryd i gysylltu hefo Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri yn ogystal â swyddogion Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor gyda'r bwriad o ystyried y mater ymhellach maes o law.** |
| 3. | **Effaith polisiau cynllunio ar hyfywedd cymunedau** | **Angen edrych ar effaith polisiau cynllunio ar hyfywedd ein cymunedau a'r rhwystrau i bobl ifanc gael caniatad cynllunio. Rhoi sylw penodol i amodau sy'n gysylltiedig â Chytundeb 106. Rhoddwyd ystyriaeth i ail gartrefi, ond deallir fod y mater hwn yn rhan o raglen waith y Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |
| 4. | **Ffioedd Parcio** | **Aelod Cabinet –yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ac i ateb rhestr o gwestiynau a ddarparwyd.** |
| 5. | **Cynllun Prentisiaeth** | |
| 6. | Trefniadau monitor a gorfodaeth meysydd carafanau | Ystyried effeithiolrwydd yr Adran Rheoleiddio o safbwynt monitro os ydy pobl yn byw mewn meysydd carafanau neu a ydynt ar eu gwyliau. |
| 7. | Denu a chadw busnesau yn y Sir | Pa mor effeithiol yw'r Cyngor yn denu a chadw busnesau yn y Sir. |
| 8. | Gwella stoc tai un llofft | Mae'r drefn budd-daliadau yn cosbi pobl gyda llofftydd sbâr. Mae angen annog cymdeithasau tai i adeiladu stoc o dai un llofft. |
| 9. | Hafan Pwllheli | Ystyried cyflwyno rheolaeth yn ól i gwmni preifat. |
| 10 | Defnydd o lwybrau beicio a | |

| | | |
|---|---|---|
| | llwybrau cerdded | |
| 11. | Parc Glynllifon a Pharc Padarn | |
| 12. | Twristiaeth | Ystyried effaith y diwydiant twristiaeth ar yr economi yng Ngwynedd |
| 13. | Digartrefedd – Hostel Noddfa, Deiniolen | Sgóp ar gyfer ymchwiliad craffu wedi ei gyflwyno |